CYNGOR PRIFYSGOL CYMRU

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 1.45p.m. ddydd Iau 9 Gorffennaf 2020

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Margaret Evans
Andrew Curl
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Arwel Ellis Owen
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman

Hefyd yn bresennol:

Yr Athro Robert Brown, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Gavin Bessant, Pennaeth Gweithredol Cyllid
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig)
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.01<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o fuddiannau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Deris Williams.<br><br>DERBYNIODD yr aelodau Ddatganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (UW134). | |
| 20.02<br>Cyfarfod Cyngor y Brifysgol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 | CADARNHAODD CPC gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 (UWC135) a CHYMERADWYO eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol. | |
| 20.03<br>Materion yn codi a phwyntiau gweithredu | DERBYNIODD CPC y tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (UWC136). | |
| 20.04<br>Penodi Ymddiriedolwyr | YSTYRIODD CPC gynigion yn ymwneud â phenodi ymddiriedolwyr i Brifysgol Cymru fel elusen (UWC137).<br><br>CYMERADWYODD ymddiriedolwyr presennol elusen PC y penderfyniad canlynol:<br><br>(a) Y dylid cychwyn proses ffurfiol i ystyried recriwtio holl aelodau'r Cyngor yn 2020/21 yn ymddiriedolwyr elusen PC.<br>(b) Y dylai'r broses gynnwys gwahoddiadau i weithredu fel ymddiriedolwyr, yn amodol ar wiriadau cymhwystra a datganiadau o fuddiannau yn unol â rheolau'r Comisiwn Elusennau.<br>(c) O hyn ymlaen y dylai trefn recriwtio, ymddiswyddiad ac ymddeoliad aelodau'r Cyngor fod yr un fath yn union â'r trefniadau ar gyfer ymddiriedolwyr elusen PC, fel nad oes gwahaniaeth mewn aelodaeth na chyfnod yn y swydd.<br>(d) O hyn ymlaen y dylid cynnal gwiriadau cymhwystra a datganiadau buddiannau yn unol â rheolau'r Comisiwn Elusennau:<br>a. yn rhan o'r broses recriwtio ar gyfer aelodau annibynnol newydd y Cyngor:<br>b. yn rhan o'r broses enwebu ar gyfer aelodau staff newydd y Cyngor.<br><br>Yn ogystal CYTUNWYD ar fesurau i fwrw ati â'r penderfyniad. | Clerc i symud ymlaen â hyn |
| 20.05 | DERBYNIODD CPC adroddiad trosolwg y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020 (UWC138). | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020 | | |
| 20.06<br>Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2020 | DERBYNIODD CPC adroddiad trosolwg y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 29  Mai 2020 (UWC139).<br><br>DERBYNIODD y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i gymeradwyo'r newidiadau i'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ar gyfer Cynllun Pensiwn PC (UWSS) a gymeradwywyd gan ymddiriedolwyr yr UWSS. | |
| 20.07<br>Adroddiad ar ddyledion drwg | YSTYRIODD CPC yr adroddiad ar Ddyledion Drwg (UWC140).<br><br>CYMERADWYODD CPC argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i ddileu'r dyledion drwg yn unol â gofynion y Rheoliadau Ariannol.   Nododd y Cyngor y darparwyd ar gyfer y dyledion yn y cyfrifon. | |
| 20.08<br>Diweddariad TUPE PC | YSTYRIODD CPC yr adroddiad diweddaru ar drosglwyddo staff yn unol â TUPE o CBM a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (CAWCS) i PCYDDS (UWC141)<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod y broses o drosglwyddo staff o CBM a CAWCS wedi'i chwblhau ar 1 Gorffennaf 2020 yn unol â'r bwriad. | |
| 20.09<br>Rhagolwg ariannol a'r gyllideb | YSTYRIODD CPC adroddiad llafar ar y Rhagolwg Ariannol a'r Gyllideb a gynigiwyd ar gyfer Prifysgol Cymru, y cyflwynwyd drafft ohonynt ym mis Mai 2020. Byddai'r gyllideb yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol i symud ymlaen â hyn |
| 20.09<br>Pwyllgor Craffu'r Grŵp | DERBYNIODD CPC yr adroddiad trosolwg o gyfarfod Pwyllgor Craffu'r Grŵp a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020 (UWC142).<br><br>CYMERADWYODD CPC argymhelliad swyddogion y dylid diddymu'r cwmnïau canlynol sydd wedi bod yn segur am nifer o flynyddoedd a/neu nad oes eu hangen mwyach. Nodwyd y byddai'r broses ffurfiol o ddiddymu yn fater i Gyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw<br>• Academi Treftadaeth Cymru (Gwasg PC)<br>• Academi Treftadaeth Cymru (CAWCS) | Clerc i symud ymlaen â hyn |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| 20.10<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD CPC yr adroddiad trosolwg o gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Mai 2020 (CPC143).<br><br>CYMERADWYODD CPC yr argymhellion canlynol:<br><br>(a) estyniad i benodiad y llywodraethwr staff cyfredol ar y Cyngor, gyda threfniadau ar gyfer y dyfodol i'w penderfynu pan fo hynny'n briodol gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu;<br>(b) enwebu Cadeirydd y Cyngor a Nigel Roberts yn Gyfarwyddwyr ar Fwrdd IUMW. | |
| 20.11<br>Defnyddio Sêl Prifysgol Cymru | Nododd CPC y rhestr ddiwygiedig o bobl i weithredu'r Sêl dan Ordinhad 29 (UWC144). | |
| 20.12<br>Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD CPC adroddiad y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 21 Mai 2020 (UWC145). | |
| 20.13<br>Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD CPC adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 18 Mai 2020 (UWC146). | |
| 20.14<br>Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD CPC adroddiad y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020 (UWC147). | |
| 20.15<br>Bwrdd Academaidd | DERBYNIODD CPC adroddiad y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2020 (UWC148). | |
| 20.16<br>Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD CPC yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf (UWC149). | |
| 20.17<br>Rhestr o eitemau a ddosbarthwyd er gwybodaeth yn dilyn canslo cyfarfod Mawrth 2020 | DERBYNIODD CPC y rhestr o eitemau a ddosbarthwyd er gwybodaeth yn dilyn canslo cyfarfod Mawrth 2020 (UWC150). | |
| 20.18<br>Papurau a ddosbarthwyd i'w cymeradwyo drwy ohebiaeth – Datganiadau Ariannol | DERBYNIODD CPC y papurau a ddosbarthwyd i'w cymeradwyo drwy ohebiaeth yn ymwneud â'r Datganiadau Ariannol (UWC151). | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.19<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 20.20<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Medi 2020. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 2.30 p.m.